envirowise

Croeso i ail rifyn cylchlythyr Ymgyrch Lleihau Gwastraff y Sector Cyhoeddus (PSMWC) 2010/11 Mae'r gronfa Grant Effeithlonrwydd Adnoddau bellach ar agor i geisiadau. Bydd y rhifyn hwn yn rhoi cipolwg i chi o'r sefydliadau sydd eisoes wedi cael budd o Arian Effeithlonrwydd Adnoddau, sef pecyn cymorth cyfathrebu i helpu eich staff i ailgydio mewn mentrau lleihau gwastraff ac ailgylchu, a 10 Awgrym i wella effeithlonrwydd adnoddau.

Cronfa Offer Effeithlonrwydd Adnoddau 2010 - AR AGOR i geisiadau!

Mae'r gronfa offer yn darparu hyd at £3,000 i sefydliadau i brynu offer gyda'r nod o leihau'r gwastraff a gynhyrchir yn fewnol a anfonir i safleoedd tirlenwi.
Mae'r gronfa AR AGOR i geisiadau! Mae gan y Sector Cyhoeddus yng Nghymru yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch. Gwefan PSWMC.

Cofiwch mai 9fed Awst yw'r dyddiad cau...

Yn 2009/2010, derbyniwyd 45 o geisiadau gan y gronfa offer i helpu sefydliadau i leihau eu gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi. Cafodd Ysgol Gymunedol Abercanaid £6,857 er mwyn prynu biniau allgylchu, golchydd stêm, peiriant golchi llestri a chwpanau amldro i leihau'r defnydd a wneir o gwpanau tafladwy, lleihau'r defnydd a wneir o erosolau a chynhwysyddion plastig a ddefnyddir i lanhau ysgolion a chynyddu faint o wastraff a gynhyrchir dan do a gaiff ei ailgylchu. Mae'r Ysgol wedi llwyddo i arbed chwe thunnell o Becynnau Tetra a phlastig.
Ewch i wefan PSWMC i weld enghreifftiau eraill

GALLWCH ARBED ARIAN drwy wella'r ffordd rydych yn trin gwastraff.

Gall gwella effeithlonrwydd Adnoddau arwain at nifer o arbedion arian parod ac arbedion eraill i'ch sefydliad. Mae'r Rhwydwaith Gwella Gwastraff (WIN), sef gwasanaeth i Awdurdodau Lleol, wedi dwyn ynghyd nifer o syniadau ac awgrymiadau y gallech eu haddasu i'ch gweithgareddau mewnol er mwyn nodi arbedion cyffredinol. Gellir ystyried y 10 cam yn unigol neu fel rhan o adolygiad cyffredinol i leihau gwastraff ac effeithlonrwydd adnoddau.

Pecyn Cymorth Cyfathrebu Am Ddim

Mae'r ffordd rydych yn cyfathrebu yn eich sefydliad yn dylanwadu ar y ffordd rydych yn cymell ac yn annog pawb i leihau gwastraff ac ailgylchu mwy. Ond mae'n dal yn anodd sicrhau pob aelod o staff yn lleihau gwastraff, ac yn ailddefnyddio ac yn ailgylchu bob amser. Gwyddom mai hwn yw'r prif rwystr olaf i sefydliadau sy'n ceisio lleihau eu gwastraff. Pa bynnag weithgareddau cyfathrebu rydych yn eu cynnal, eu prif nod yw ymgysylltu â phobl. Mae llawer o wahanol ffyrdd o gyflawni hyn ond gellir ei wneud drwy unrhyw sianel gyfathrebu sydd ar gael cyhyd â'i bod yn arwain at newid cadarnhaol mewn ymddygiad.

Er mwyn helpu sefydliadau yn y sector cyhoeddus i ymgysylltu'n effeithiol, rydym wedi llunio Pecyn Cymorth Cyfathrebu y gellir ei lawrlwytho am ddim. Mae amrywiaeth o adnoddau a nodiadau canllaw ac eitemau defnyddiol eraill yn y pecyn cymorth i wneud y gorau o'ch mentrau Effeithlonrwydd Adnoddau a lleihau gwastraff.

Llai nag wyth mlynedd o ofod tirlenwi ar ôl yng Nghymru a Lloegr, yn ôl arweinwyr cynghorau

Mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn cynhyrchu digon o wastraff y flwyddyn i lenwi Stadiwm y Mileniwm mewn ychydig dros flwyddyn. Beth mae eich sefydliad yn ei wneud i leihau gwastraff?

www.lga.gov.uk/lga/core/page.do?pageId=12349110

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am Ymgyrch Lleihau Gwastraff y Sector Cyhoeddus, cysylltwch â ni yn public.sector@envirowisewales.org.uk new ewch i wefan PSWMC.